Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Gwasanaeth Maethu 1st Affinity

Gwasanaeth Maethu 1st Affinity
4a Ffordd Caer
Wrecsam
LL12 8TN

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Gwasanaeth Maethu 1st Affinity

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Maethu
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaeth Maethu 1st Affinity Cyfyngedig
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	30 Ebrill 2018
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae Asiantaeth Faethu Annibynnol 1st Affinity wedi'i chofrestru i ddarparu gwasanaeth maethu i blant 0-18 oed. Mae 1st Affinity yn cynnig lleoliadau hirdymor, lleoliadau pontio, brys, rhiant a phlentyn a seibiant byrdymor. Mae Unigolyn Cyfrifol a rheolwr sydd wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae'r asiantaeth faethu yn darparu gwasanaeth effeithiol iawn sy'n rhoi cefnogaeth barhaus i blant gael canlyniadau gwell o lawer a phrofiadau cadarnhaol. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau da â'r gofalwyr maeth a chânt eu hannog i fwyta deiet cytbwys ac iach, i fod yn gorfforol egnïol ac i feithrin sgiliau annibyniaeth. Caiff y plant eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan mewn addysg gynradd, uwchradd a phellach. Mae'r gofalwyr maeth yn eirioli ar ran y plant i sicrhau y caiff eu hanghenion iechyd a diogelwch a diogeledd eu cynnal.

Mae'r asiantaeth faethu yn gweithio'n dda gydag awdurdodau lleol i sicrhau cyfnod pontio esmwyth i blant sy'n symud i fyw â theuluoedd maeth. Mae'r broses o baru plant a gofalwyr maeth yn effeithiol. Mae grwpiau plant a grwpiau gofalwyr maeth ar wahân sy'n cefnogi pawb i leisio eu barn. Mae'r tîm rheoli, ynghyd â gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a gofalwyr maeth wedi datblygu gwasanaeth effeithiol iawn.

Llesiant

Caiff y plant eu cefnogi gan ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol i sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed a'u parchu. Mae gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn cael safbwyntiau plant yn rheolaidd ac yn ymateb i'w dymuniadau a'u teimladau. Caiff y plant eu cefnogi gan ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol i fynd i adolygiadau i Blant sy'n Derbyn Gofal ac ymgynghorir â nhw fel rhan o'r broses flynyddol ffurfiol o adolygu gofalwyr maeth. Mae plant yn rhoi adborth ystyrlon a gonest i'r panel maethu ar gyfer adolygiadau gofalwyr a chaiff yr asiantaeth ei llywio gan leisiau'r plant. Mae'r asiantaeth yn rhagweithiol i sicrhau y caiff lleisiau plant eu clywed a'u cymhwyso yn y gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei bod yn targedu cymorth a gwasanaethau i ddymuniadau, teimladau ac anghenion penodol y plant y maent yn rhoi gofal a chymorth iddynt. Mae gwybodaeth am y gwasanaeth ar gael i'r plant mewn amryw o fformatau sy'n addas i'w hoedran a'u lefel dealltwriaeth. Mae gwybodaeth am sut i wneud cwyn neu pwy i siarad â nhw os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Un o gryfderau'r asiantaeth yw gallu'r tîm rheoli i gefnogi gofalwyr maeth i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth a gofal â'r plant. Nododd y plant mewn recordiadau o drafodaethau a gynhaliwyd â'r gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Nododd un plentyn y canlynol mewn recordiad o drafodaeth: '*I can speak to my carers about any feelings I have whether it be home life, school or anything else on my mind.'* Nododd recordiadau ychwanegol o drafodaethau â'r plant eu bod yn ddiogel, a'u bod wir yn mwynhau byw gyda'u teulu maeth a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys ym mywydau eu teuluoedd maeth. Dywedodd y gofalwyr maeth wrthym fod y cymorth y maen nhw a'r plant yn ei gael yn ddefnyddiol ac yn *'Above and beyond what is required … and … management are always available.'* Gwnaethant hefyd ddweud, os na fydd gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol ar gael; mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r tîm rheoli bob amser ar gael i ymweld â'u cartref i roi cyngor a chymorth ac i wrando ar y plant. Nododd y gofalwyr maeth bod yr Unigolyn Cyfrifol a'r tîm rheoli yn ymgysylltu â'r plant yn ystod digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd ac wrth ymweld â gofalwyr maeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn sicrhau bod plant sy'n gwybod pwy ydynt er mwyn helpu i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth ac yn sicrhau eu bod yn hawdd siarad â nhw er mwyn casglu adborth.

Mae'r plant yn gwneud cynnydd sylweddol ym mhob rhan o'u bywydau. Cynhelir asesiad olrhain canlyniadau gan weithwyr cymdeithasol goruchwyliol ynghyd â gofalwyr maeth. Mae hyn yn tynnu sylw at y cynnydd a wneir gan y plant ac yn cydnabod ble mae'r plant yn cael budd o'r fagwraeth, y gofal a'r cymorth a ddarperir. Mae'n tywys y gofalwyr maeth i addasu eu gofal a'u cymorth i ymateb i anghenion y plant mewn modd sensitif ac effeithiol. Mae'r plant yn cael canlyniadau iechyd cadarnhaol.

Gofal a Chymorth

Caiff cydberthnasau'r plant â'u teuluoedd eu gwerthfawrogi a'u hyrwyddo lle bo'n briodol. Caiff cydberthnasau'r plant â'u brodyr a'u chwiorydd eu diogelu, a chânt eu lleoli gyda'i gilydd pan fo modd. Caiff teuluoedd genedigol eu cynnwys yng ngwaith stori bywyd y plant ac mae hyn yn eu galluogi i ddeall a gwneud synnwyr o daith eu plentyndod. Caiff cyflawniadau'r plant eu dathlu a gellir eu gweld ar waliau swyddfa'r asiantaeth a cheir rhywfaint o gyfeiriadau at yr ystafell grŵp cymorth gofalwyr maeth yr ymwelodd yr arolygwyr ag ef. Mae'r staff yn rhoi cymorth i'r gofalwyr maeth a all ddefnyddio'r cyngor i fagu hyder y plant a meithrin eu dealltwriaeth o sefyllfaoedd penodol a sut i newid eu hymddygiad.

Mae'r gwasanaeth yn sicrhau bod gan y plant gynlluniau lleoliad, asesiadau risg a chynlluniau gofal mwy diogel i gefnogi gofalwyr maeth i gynnig gofal a chymorth diogel a chyson. Mae cynlluniau gofal mwy diogel yn benodol i ofalwyr maeth a phlant unigol a chânt eu datblygu pan fydd y plant yn symud i'w cartref maeth a chânt eu hadolygu'n rheolaidd neu pan fydd newid yn digwydd. Mae asesiadau risg yn nodi ymddygiadau'r plant sy'n peri risg er mwyn sicrhau bod gan y gofalwyr maeth ddealltwriaeth dda o sut i gefnogi'r plant a rheoli'r risg. Pan fydd angen cymorth ar y plant gyda'u hiechyd seicolegol ac emosiynol, gwneir atgyfeiriadau chwim i'r gwasanaethau priodol mewn ymgynghoriad â gweithwyr cymdeithasol yn yr awdurdod lleoli. Bydd y gofalwyr maeth, y gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a'r tîm rheoli pan fydd angen yn eirioli ar ran y plant ac yn herio gweithwyr proffesiynol eraill yn briodol i sicrhau bod y plant yn ddiogel a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Pan na fydd cymorth yn dod, bydd yr asiantaeth yn eirioli ac yn sicrhau bod y plant yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt i ffynnu mewn bywyd.

Mae enghreifftiau o arferion da wrth reoli digwyddiadau diogelu. Mae'r gweithwyr maeth, y gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a gweithwyr proffesiynol eraill yn cydweithio i sicrhau bod y plant yn cadw'n ddiogel. Dywedodd y gofalwyr maeth a'r gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol wrthym eu bod yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi ac yn rhoi cyngor a chymorth iddynt. Pan fydd plant yn mynd ar goll o ofal maeth, caiff protocol clir ei ddilyn i roi gwybod i'r awdurdodau priodol eu bod ar goll er mwyn sicrhau y deuir o hyd iddynt a'u bod yn cael eu dychwelyd yn ddiogel. Caiff cynlluniau lleoli eu diwygio'n gyson i adlewyrchu anghenion newidiol y plant. Mae'r asiantaeth wedi mabwysiadu rhaglen gynhwysfawr o gymorth therapiwtig. Mae hon wedi cael effaith gadarnhaol ar forâl, sgiliau a gwybodaeth gofalwyr maeth plant sydd wedi profi trawma. Mae hyn yn galluogi'r gofalwyr maeth a'r gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol i roi gofal therapiwtig i'r plant sy'n eu helpu i brosesu'r trawma o'u gorffennol.

Mae'r asiantaeth yn paru'r plant â gofalwyr maeth addas i gefnogi anghenion ieithyddol a diwylliannol. Er enghraifft, mae plentyn Cymraeg ei iaith wedi cael ei baru â gofalwyr maeth

sy'n siarad Cymraeg. Mae hyn wedi helpu'r plentyn i barhau i gyfathrebu yn Gymraeg ac i barchu ei anghenion a'i ofynion diwylliannol. Mae'r plentyn wedi parhau i feithrin cydberthnasau cryf â phlant eraill yn yr ysgol cyfrwng Cymraeg ac yn ardal cartref y gofalwyr maeth.

Caiff addysg y plentyn ei hyrwyddo, ac mae gofalwyr maeth yn chwarae rhan weithredol yn cefnogi'r plant i gyflawni a chyrraedd eu llawn botensial. Mae'r gofalwyr maeth yn eirioli dros anghenion addysgol y plant ac yn sicrhau eu bod ar gael i fynd i gyfarfodydd ac adolygiadau. Caiff y plant eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau a diddordebau newydd, a chânt eu cefnogi i ymuno â chlybiau. Cânt gyfleoedd i gymdeithasu a gwneud ffrindiau ac mae'r gofalwyr maeth yn cefnogi'r plant i fynd i bartïon a diwrnodau chwarae er mwyn annog cyfeillgarwch cadarnhaol.

Caiff gofalwyr maeth eu goruchwylio bob mis yn y cartref er mwyn sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn asesu amgylchedd y cartref. Ystyrir bod safonau iechyd a diogelwch yng nghartrefi gofalwyr maeth yn rhan o'r broses adolygu flynyddol ffurfiol, ynghyd ag asesiadau o anifeiliaid anwes er mwyn asesu diogelwch. Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cwblhau ar adeg recriwtio a'u hadnewyddu ar y cyfnodau gofynnol.

Yr Amgylchedd

Nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystyried thema'r Amgylchedd yn llawn oherwydd natur yr asiantaeth faethu annibynnol.

Mae safle'r swyddfa ar gyfer yr asiantaeth faethu yn briodol ac yn addas at y diben. Mae'r gofod swyddfa yn fawr ac yn cynnig digon o le i gyflwyno hyfforddiant neu gynnal cyfarfodydd. Caiff cofnodion mewn perthynas â phlant a gofalwyr maeth eu storio'n ddiogel. Mae gan y gwasanaeth system electronig ar gyfer cofnodion sydd wedi'i ddiogelu â chyfrinair gyda chodau mynediad unigol. Caiff ffeiliau staff a dogfennau eraill papur eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo.

Arwain a Rheoli

Mae'r trefniadau arwain a rheoli yn effeithiol iawn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol, y tîm rheoli, gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a gofalwyr maeth yn gydlynol ac yn cydweithio wrth ymarfer. Nododd y tîm rheoli a gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol y cafwyd datblygiadau cadarnhaol ers yr arolygiad blaenorol yn 2018. Mae'r datblygiadau wedi arwain at ehangu'r gwasanaeth gyda chynnydd yn nifer y gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a gofalwyr maeth. Mae'r adborth gan ofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol allanol sy'n gysylltiedig â'r asiantaeth yn gadarnhaol. Mae gan yr asiantaeth arferion recriwtio diogel mewn perthynas â chyflogi gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol. Mae proses sefydlu drylwyr ar waith i baratoi gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol i gefnogi gofalwyr maeth a phlant. Ar y cyfan, mae'r arferion recriwtio gweinyddol yn effeithiol a chaiff geirdaon eu caffael a'u dilysu. Mae ffeiliau gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn cynnwys copi o'r disgrifiad swydd sy'n nodi gofynion y rôl a thystiolaeth o gymwysterau perthnasol.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r broses o reoli'r gwasanaeth ac mae'n ymrwymedig iawn i roi cyngor ac arweiniad priodol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn cael goruchwyliaeth ystyrlon i'w galluogi i fyfyrio a meithrin eu gwybodaeth a'u perfformiad. Nododd gofalwyr maeth bod yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn arbennig o gefnogol a'u bod ar gael bob amser pan fydd problem yn codi. Mae'r rheolwyr yn ymrwymedig iawn i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i gyflawni eu potensial ac i gael canlyniadau cadarnhaol. Nododd y gofalwyr maeth bod y tîm rheoli yn eithriadol o gefnogol, gwybodus, ac yn gallu cynnig cyngor cadarn. Gall gweithiwr cymdeithasol goruchwyliwr sy'n siarad Cymraeg gynnig gwasanaeth Cymraeg i blant a gofalwyr maeth.

Rhoddodd y gofalwyr maeth adborth cadarnhaol ynghylch y cyngor a'r cymorth a gânt gan yr asiantaeth. Maent yn gwerthfawrogi arbenigedd y gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol ac mae rheolwyr ar gael bob amser y gallant gysylltu â nhw i gael arweiniad os bydd ganddynt unrhyw broblemau sy'n codi ar unrhyw adeg o'r dydd. Mae'r gofalwyr maeth yn rhan o'r broses gynllunio a pharu ar gyfer unrhyw leoliadau newydd. Caiff pob cam ei reoli'n sensitif ac ar gyflymder y mae'r plant yn gyfforddus ag ef. Pan fydd y plant yn symud i mewn gyda'u gofalwyr maeth newydd caiff hyn ei reoli'n sensitif a gyda gofal er mwyn sicrhau proses bontio esmwyth. Canmolodd y gofalwyr maeth y broses asesu i gael eu cofrestru fel gofalwyr gan ddweud ei bod yn drylwyr ac yn angenrheidiol o ystyried y rôl. Ar ôl cofrestru, nododd y gofalwyr maeth bod y sgiliau a ddysgwyd drwy hyfforddiant, cyngor a chymorth maethu a roddir gan y gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn hanfodol i'r rôl heriol.

Mae aelodau panel yn craffu ar y dulliau sicrhau ansawdd ynghylch asesiadau ac adroddiadau adolygu gofalwyr maeth er mwyn sicrhau bod gofalwyr maeth yn ddiogel, yn addas ac yn gymwys i ymgymryd â'r rôl. Caiff prosesau craffu ar dystiolaeth yn nogfennau'r panel maethu a phrosesau gwneud penderfyniadau mewn perthynas â newidiadau i statws

cymeradwyo, a chytundebau gofalwyr maethu eu hadolygu a'u llofnodi ar ôl unrhyw newid. Mae gan ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol fynediad i hyfforddiant gorfodol a dewisol i ategu eu gwybodaeth. Mae hyfforddiant ychwanegol ar gael i ofalwyr maeth yn enwedig pan fydd anghenion plant yn newid neu'n mynd yn fwy heriol. Mae'r gofalwyr maeth yn cwblhau hyfforddiant diogelwch rheolaidd a gwnaethant nodi eu bod yn deall eu rôl o ran diogelu ac amddiffyn y plant. Mae llawlyfr i ofalwyr maeth yn rhoi gwybodaeth am y gwasanaeth a sut i gyflwyno cwyn.

Caiff adroddiadau'r Unigolyn Cyfrifol eu cwblhau o fewn yr amserlen ac maent yn cynnwys adrannau i ddogfennu pa gofnodion a gafodd eu harchwilio a phan ymgynghorir â phlant, gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol ac awdurdodau lleoli. Mae'r adolygiad o ansawdd gofal yn rhoi dadansoddiad trylwyr o ddata; er mwyn deall a nodi unrhyw batrymau a thueddiadau i lywio a datblygu'r gwasanaeth.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

Dyddiad Cyhoeddi 01/09/2023